**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mawrth 2007**

## Cymhathu o Rengoedd i Rolau (Atodol)

**Adroddiad gan Paul Claydon,**
**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**
**(Cyflwyno'r Gwasanaethau)**

### Diben yr Adroddiad

**1.** Rhoi'r wybodaeth bellach i'r aelodau y gofynnwyd amdani yng nghyfarfod yr Awdurdod ar Ragfyr 18fed 2006, ynghylch y trefniadau i ddiogelu cyflogau yn dilyn y papur ar Gymhathu o Rengoedd i Rolau (Eitem 7 ar yr Agenda).

### Cyflwyniad

**2.** Bydd yr aelodau'n cofio y gofynnwyd, wedi trafodaethau ynghylch y papur Cymhathu o Rengoedd i Rolau, am ragor o fanylion ynghylch y goblygiadau ariannol ac adroddiad pellach wedi i'r cymathiadau lefel rheolaeth, oedd yn weddill, gael eu cwblhau.

**3.** Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru bellach wedi gorffen y cymhathiad o Rengoedd i Rolau ar gyfer 850 o Ddiffoddwyr Tân, Rheolwyr Criw, Rheolwyr Gwylfa, Rheolwyr Gorsaf, Rheolwyr Grŵp a Rheolwyr Maes ar gyfer y System Ddyletswydd Rhan Amser a'r System Ddyletswydd Llawn Amser, ynghyd â'r apeliadau gan 17 aelod o staff.

**4.** Nid yw swyddi yn yr ystafell reoli wedi cael eu cymathu eto, gan aros am yr adolygiad o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer y swyddi hyn. Mae'r adolygiad hwn wrthi'n cael ei gynnal.

## Yr Ystyriaethau Ariannol

5. Cyfanswm y costau ar gyfer gweithredu'r broses o Gymhathu o Rengoedd i Rolau hyd yn hyn yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yw cynnydd o £26,252 mewn cyflogau. Nid yw hyn yn cynnwys ôl-daliadau.

6. Yr arbedion a geir pan ddaw y diogeliad cyflog tair blynedd y cytunodd y Cyd-Gyngor Cenedlaethol (NJC) arno i ben o ddyddiad y cymhathiad/apêl fydd £24,091*

**** mae'r costau a roddir yn seiliedig ar y cyfraddau cyflog presennol***

## Yr Ystyriaethau o ran Diogelu Cyflogau

7. Mae dirymu'r oedran ymddeol gorfodol yn golygu na ellir darparu amcangyfrif pendant o'r costau. Fodd bynnag, yn nhabl 1 isod mae amcangyfrifiadau yn seiliedig ar y staff presennol yn ymddeol yn 55 a 60 mlwydd oed ar raddfa symudol.

| Tabl 1 | | | |
|---|---|---|---|
| Ymddeol yn 55 | | Ymddeol yn 60 | |
| Blwyddyn | Cost y flwyddyn £ | Blwyddyn | Cost y flwyddyn £ |
| 2010 | 13465 | 2010 | 18085 |
| 2011 | 12541 | 2011 | 18085 |
| 2012 | 11154 | 2012 | 16237 |
| 2013 | 9767 | 2013 | 15313 |
| 2014 | 8381 | 2014 | 13927 |
| 2015 | 8381 | 2015 | 13927 |
| 2016 | 6994 | 2016 | 13003 |
| 2017 | 5608 | 2017 | 11617 |
| 2018 | 5608 | 2018 | 10231 |
| 2019 | 5146 | 2019 | 8844 |
| 2020 | 5146 | 2020 | 8844 |
| 2021 | 3297 | 2021 | 7459 |
| 2022 | 3297 | 2022 | 6070 |
| 2023 | 2835 | 2023 | 6070 |
| 2024 | 1910 | 2024 | 5608 |
| Cyfanswm | 103530* | Cyfanswm | 173320* |

**Mae'r costau'n seiliedig ar y cyfraddau cyflog presennol*

**8.** Mae proffil oedran y staff dan sylw yn amrywio o 37 i 55. Gyda'r proffil hwn, fe allai ymestyn y diogeliadau cyflog y tu hwnt i amserlen y Cyd-Gyngor Cenedlaethol gael effaith negyddol ar y cyllidebau hyd at 2027 o leiaf.

### Y Goblygiadau Cyfreithiol

**9.** O ddarparu diogeliad cyflog am oes, byddai goblygiadau ehangach. Mae gwybodaeth a dderbyniwyd gan ymgynghorwyr cyfraith cyflogaeth y Gwasanaeth yn dangos y gallai'r Awdurdod fod yn agored i geisiadau cyflog cyfartal petai grŵp o staff, sydd â chytundeb cydnabyddedig eisoes mewn lle, yn cael diogeliadau cyflog wedi eu dyfarnu y tu hwnt i'r cyfnod sydd yn y cytundeb.

**Y Goblygiadau Cyfreithiol** *(parhad)*

**10.** Byddai penderfynu darparu diogeliad cyflog o’r fath yn gosod cynsail, ac felly’n dylanwadu ar unrhyw achos arall lle y byddai unigolion neu grwpiau o staff yn dod yn gymwys i gael diogelu eu cyflogau y tu allan i’r broses cymhathu o rengoedd i rolau.

**Argymhellion**

**11.** Bod:

**11.1** aelodau’n nodi cynnwys yr adroddiad a’r goblygiadau ariannol;

**11.2** aelodau’n nodi y byddai unrhyw ddiogelu cyflogau am fwy na thair blynedd y tu allan i gytundeb y Cyd-Gyngor Cenedlaethol a arwyddwyd gan bob ochr berthnasol; and

**11.3** yr Awdurdod yn talu diogeliadau am dair blynedd, yn unol â chytundeb y Cyd-Gyngor Cenedlaethol.